YMATEB B

# CYFWELIAD AM BROFIAD CREFYDDOL

**(Sgwrs rhwng Y Parch. Steffan Jones a Bobi Jones)**

**2013**

*Yn wahanol i bopeth arall ar y Wefan hon, y mae'r eitem hon yn sgwrs fach rhwng awdur y Wefan a gweinidog Cymraeg ifanc.*

**Cyfweliad â Bobi Jones**

**Rhan 1 – Bywyd a Gyrfa**

**1. A allwch chi roi syniad i ni o'ch cefndir a'ch magwraeth? Rydych chi'n nodedig am fod yn Gristion ac yn Gymro, felly efallai y byddai hi'n sioc i rai pobl wybod nad oeddech chi'n Gristion nac yn siaradwr Cymraeg pan oeddech chi'n ifanc.**

Wel, ces i 'ngeni yng Nghaerdydd ym 1929. Rown i'n perthyn yn bendant i'r dosbarth gweithiol. Roedd fy mam a nhad wedi dod o Ferthyr Tudfil. Pan oedd 'y nhad yn dair ar ddeg oed, oherwydd bod yr arian yn brin, cas ei dynnu o'r ysgol, a bu'n gweithio yn y pwll glo nes ei fod yn bymtheg oed, pryd cas e anaf oherwydd Cwymp yn y pwll. Wedyn, aeth e i weithio mewn siop ym Merthyr i ddechrau, wedyn yng Nghaerdydd.

Roedd fy rhieni yn gapelwyr ffyddlon fel llawer iawn yn eu cyfnod, a daeth 'nhad yn ddiacon maes o law. Ond capel rhyddfrydol braidd oedd gynnon ni cyn belled ag dwi'n gallu'i gofio. Dyneiddiaeth – neu'r efengyl gymdeithasol – oedd y math o beth y bydden ni'n ei glywed. Doedd dim llawer o sôn am bechod a gwaredigaeth y Groes ond wrth gwrs yn yr emynau a'r darlleniadau o'r Beibl. Doedd yr absenoldeb yna ddim yn amlwg iawn ond i'r rhai a oedd yn effro. A doeddwn innau ddim yn un  o'r rhai effro.

**2. Pryd – a pham – aethoch chi ati i ddysgu'r Gymraeg?**

Saesneg oedd iaith 'y nghartref. Doedd dim gair o Gymraeg yn y tŷ. Roedd fy mam-gu a'm tad-cu ar ochr 'y nhad yn medru Cymraeg, ond fe wnaethon nhw fagu'r teulu yn Saesneg ym Merthyr, yn ôl y ffasiwn.  Buodd fy mam-gu farw cyn imi gael 'y ngeni. A dwi ddim yn cofio siarad unrhyw fath o iaith ond rhyw ddwywaith â'm tad-cu. Bu yntau farw pan oeddwn i'n blentyn bach. Rhywbeth tebyg, mae arna-i ofn, oedd y diffyg brwdfrydedd ynghylch yr iaith ar ochr fy mam. Felly, *yn yr ysgol uwchradd* yng Nghaerdydd  y bu'n rhaid i mi ddysgu'r iaith. Cynnyrch brwdfrydedd athro anghyffredin yn Ysgol Cathays oedd fy nhipyn Cymreictod i.

Dwi'n gallu cofio wynebu'r Prifathro ar y diwrnod cyntaf yn yr ysgol uwchradd. Roedd Ffrangeg yn orfodol, a dewis un o'r tair ffrwd ddechreuol oedd rhaid i'r plant newydd – Sbaeneg mewn dwy ffrwd a Chymraeg yn y llall. Y bore cyntaf, er mwyn cael ffrwd hyfyw yn y Gymraeg, roedd yn rhaid i'r Prifathro ricriwtio.

'Tell me my boy,' meddai fe wrth un bachgen bach tew yn y rhes flaen Sbaeneg, 'Why don't

you want to learn Welsh?'

'No 'nyff Syr'.

'Well, tell me, my boy, what's good morning in Welsh?'

'Dno Syr'.

'Tell me my boy, what's good night in Welsh?'

'Dno Syr'.

Rywfodd roedd y dirgeledigaethau hyn wedi cael eu hesgeuluso yn f'ysgol gynradd.

'Well, listen to me. I'm an Englishman from Lancashire. And even I know that. Don't you think you'd better reconsider your decision? Go home and ask your mother.'

'Sych dy drwyn. Rho dy dei yn deidi. A gwna beth wyt ti'n moyn', oedd fwy neu lai y cyngor ystyriol ges i gartre. Es i'n ôl i'r ysgol. A threfnodd rhagluniaeth 'y mod i'n dysgu Cymraeg o dan grafangau yr athro Cymraeg gorau yng Nghymru. Nid ceisio difrïo fy rhieni na'u beio nhw dw i. Dyna oedd barn ac agwedd y rhan fwyaf o Gymru ddi-Gymraeg ar y pryd. A doedd fy rhieni ddim yn wahanol i bobl eraill. Doedd hi fawr gwell ymhlith y Cymry Cymraeg. Llifo ymlaen, gan gilio mewn Cymreictod heb sylwi braidd ar y dirywiad diwylliannol cyson: dyna oedd derbyn y drefn adfeiliol.

Dw i am sôn am arbenigrwydd Elvet Thomas, yr athro Cymraeg. Doedd gan athrawon Cymraeg yn ysgolion Caerdydd y pryd hynny ond ychydig iawn o glem sut i ddysgu ail iaith. Doedd dim graddio patrymau, dim dosbarthu geirfa, dim cynllunio cwrs na gwers yn gynyddol yn un man – ar gyfer unrhyw ail iaith. Doedd dim pwyslais ar *siarad yr iaith.* Doedd dim model o Gymraeg Llafar Safonol. Hynny yw, nid yn unig doedd dim cynnydd taclus, doedd dim dulliau hwyl na sbort chwaith. Ond roedd Elvet Thomas yn caru'r iaith yn gwbl angerddol, ac yn llawn o storïau am Gymru. Ac roedd ei ysbryd e'n heintus.

Plentyn o Gaerdydd oedd yntau i bob pwrpas. Un dydd pan oedd e'n saith oed, roedd e'n chwarae yn y stryd gyda'i frawd. Cymro Cymraeg oedd Elvet, ac yn chwarae yn Gymraeg yn naturiol. Daeth rhyw fenyw fach heibio, a chlywed yr iaith, a gofyn iddo: 'Is that Welsh I'm hearing?' 'Yes Miss.' 'Well, take that,' a rhoddodd hi ergyd ar draws ei wyneb.

Byth wedyn, drwy drugaredd, un uchelgais am yrfa oedd gan Elvet Thomas. Ac o dan ei arweiniad hollol ymroddedig ef, fe godwyd llawer iawn yn Gymry Cymraeg yn y pen draw yn yr ysgol honno, oherwydd iddo fagu'n cariad at Gymru; tri ohonon-ni i fod yn ddarlithwyr ar y pwnc yn y Brifysgol – yn ogystal â llu o rai cyffelyb, yn athrawon ysgol yn y Gymraeg, yn swyddogion addysg, yn swyddogion yn y Swyddfa Gymreig, yn berfformwyr Cymraeg, ac yn rhieni Cymraeg naturiol. Dyna, yn ddiymwybod bron, Ragluniaeth fy nhröedigaeth i'r Gymraeg, felly.

3. **Pwy neu beth oedd y prif ddylanwadau personol arnoch chi wrth i chi dyfu i fyny?**

Heblaw Elvet Thomas yn yr ysgol, wrth gwrs, fe ges i athrawon rhyfeddol ym Mhrifysgol Caerdydd. Down i ddim wedi bwriadu gwneud y Gymraeg yn y Brifysgol. Ond o fewn mis, a hynny oherwydd eto y cariad amlwg a dwfn at yr iaith gan yr athrawon Griffith John Williams a T.J. Morgan – yr oeddwn wedi penderfynu dewis y Gymraeg fel prif destun academaidd fy mywyd. Down i ddim yn medru siarad yr iaith yn rhugl am flynyddoedd gan mai gramadeg a chyfieithu oedd y prif ddull arholiadol a fabwysiadodd Elvet Thomas. Cariad oedd cyfrinach ei lwyddiant. Roedd yn rhaid imi fenthyca nodiadau gan un o'm cydfyfyrwyr iaith-gyntaf am bron hanner blwyddyn yn y Brifysgol oherwydd cyflymder y llefaru yn y darlithiau. Ac yna es i weithio yng ngwyliau'r haf ar fferm ym Mancffosfelen ac wedyn yng Nghrwbin, a des i'n ôl yn ei siarad hi'n rhugl. Roedd gen i ddigon o eirfa a gramadeg, a darllen a sgrifennu cyn hynny. Ond gormod o swildod i siarad. Wedyn, daeth y Brifysgol yn drobwynt yn 'y mywyd, y cyfoeth cudd o lenyddiaeth gyfoethog a diwylliant bonheddig hen a'r bwrlwm diwylliedig ymhlith y Werin, dyna'r prif ddarganfyddiad yn ystod y tair blynedd hynny.

Rhaid i mi grybwyll hefyd fy nghydfyfyrwyr caredig a helpfawr. Roedd eu cymdeithas nhw yn ddylanwad hyfryd a phwysig imi. Yn y Coleg y ces i 'mhrofiad Cymraeg cyntaf o groeso i'r fro Gymraeg, ym Mharc Cathays. Yr oedd hyn cyn i fath o ragfarn yn ddiweddarach ddatblygu ymhlith myfyrwyr Iaith Gyntaf i beidio â bod yn rhan werthfawr o'r symudiad i gyfathebru'n adferol yn y symudiad i adennill yr iaith; ac aethant i ymddiried yn llwyr yn y diwylliant protest, yn negyddol gyfan gwbl.

O ran crefydda ar y pryd, yr oeddwn i'n mwynhau'r dadlau ym Mudiad rhyddfrydol y myfyrwyr a oedd yn gyffredin yn y Prifysgolion, ond sydd – am wn i – wedi darfod erbyn hyn. I mi, rhan bwysig o'r Gymdeithas o Gymreictod cynnes yn y bywyd colegol oedd y dadlau, am grefydd ac am wleidyddiaeth. Doedd gen i ddim clem am brif ddysgeidiaeth uniongred yr Eglwys nac am ei lle yn hanes Cymru, nac yn ein llenyddiaeth. Heddychiaeth a Moesoldeb oedd popeth ar y pryd, chwap ar ôl y rhyfel. A'r dylanwad mwyaf gartref yn y cyfeiriad hwnnw oedd fy nhad-cu ar ochr fy mam. Marcsydd ac Undebwr mawr oedd fy nhad-cu, gwrthryfelwr eithaf poeth. Fe a'm harweiniodd i ddeall y gwahanol fathau o Sosialaeth a oedd i'w cael ar y pryd, ac i ddarllen Marx, Engels, Bernard Shaw, a rhyw bobl felly a oedd am newid y byd heb eu newid hwy eu hunain, a heb adnabod Duw yr un pryd. Ond wrth gwrs, y dylanwad mwyaf oedd fy mam a'm tad a'm brawd Keith. Nhw a ddysgodd i mi beth oedd cartref llawen hyfryd. Dwi *ddim* am ddweud hyn fel mater o gwrteisi a diolch naturiol. Ond dwi wedi sylweddoli erbyn hyn fod 'y nghartref i wedi bod yn eithafol o gariadus, ac roedd cael bod ym mhresenoldeb y fath serchiadau amlwg a chyson yn fraint

aruthrol mewn magwraeth. Dyna'r bobl fwyaf dylanwadol, a gymerais yn ganiataol ar y pryd.

Dylwn i grybwyll un dylanwad negyddol. Sef y Rhyfel. Fe adawodd honno dipyn o graith ar 'y nghalon i fel ar bawb arall ar y pryd. Yn arbennig yr Holocôst. Y Rhyfel a feddiannodd brif flynyddoedd fy mhlentyndod a'm llencyndod – o ddeg oed hyd un ar bymtheg. Dyna a'm gwnaeth i'n Heddychwr syml i ddechrau, ond yn Heddychwr cymhleth wedyn, wrth bendroni a darllen, ac ailymweld â'r blynyddoedd hynny yn 'y meddwl i byth ar ôl hynny.

**4. Ac yna gadael ysgol ... beth wedyn? Ble wnaethoch chi gyfarfod â Beti? Pryd wnaethoch chi briodi?**

Cwrddais i â Beti yn y capel. Dechreusom ni ganlyn ein gilydd ar Fehefin 25, 1949. Priodsom ni ryw dair blynedd wedyn. Bu'r ddau ohonom ni'n gyd-athrawon am ddwy flynedd yn Ysgol Uwchradd Llanidloes. Wedyn bues i am ddwy flynedd yn Ysgol Llangefni. Wedyn ddwy flynedd yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin, lle y bûm i'n bennaeth ar yr Adran Gymraeg, ac yn ddarlithydd ar Ddwyieithrwydd. Wedyn ces i ddwy flynedd yn Adran Addysg Aberystwyth, wedyn symud i fod yn ymchwilydd llawn-amser mewn Ieithyddiaeth Gymwysedig yn yr hyn a elwid yn Gyfadran Addysg, cyn symud yn nes ymlaen i'r Adran Gymraeg yn y Coleg. Dyna ysgerbwd fy ngyrfa academaidd.

Yng Nghaerfyrddin y cas Lowri ei geni. Yn Aberystwyth Rhodri. Ac felly – gyda'u mam – dyna dri dylanwad crwn gartref gyda'i gilydd nawr a fu'n bwysicach, ac am fwy o flynyddoedd wrth gwrs, nag unrhyw ddylanwad arall yn fy mywyd. Ym mis Rhagfyr eleni (2012), bydd Beti a finnau, os bydd Duw yn caniatáu, yn dathlu ein priodas Deimwnt.

**5. I'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â'ch gyrfa academaidd, a wnewch chi roi cyflwyniad i'ch gyrfa fel llenor. I rai pobl, fe fyddwch yn gyfarwydd fel Bobi Jones, ond i eraill R.M. Jones yw eich enw. A oes arwyddocâd i'r defnydd o'r naill enw neu'r llall? Beth yw prif nodweddion eich gwaith?**

Yn academaidd, dw i ddim wedi dilyn yr yrfa o'm dewis fy hun. Ac fel popeth arall a wnes i mae'r cwbl bron wedi bod yn annisgwyl. Roedd hyd yn oed dilyn y Gymraeg yn beth annisgwyl.

Wedyn, ches i *ddim* rhai swyddi rown i wedi cynnig amdanyn nhw, ac fe gynigiwyd i mi swyddi eraill nad own i ddim yn eu disgwyl. Ac eto, fe deimlwn fod Rhagluniaeth rywfodd yn pwyso tuag at rai cyfeiriadau. Roedd hi fel pe bai Rhywun mwy na mi wedi bod yn llywodraethu ac yn cynllunio, yn agor ac yn cau drysau... Ond gadewch imi sôn ychydig yn fwy manwl am un peth.

Pan ddes i Aberystwyth yn gyntaf, dod fel darlithydd i'r Adran Addysg i ddarlithio ar seicoleg ac athroniaeth Addysg wnes i. Er bod amryw wedi darlithio drwy gyfrwng y Gymraeg

mewn Addysg o'r blaen ac wrth gwrs yn yr Adrannau Cymraeg eu hunain, dyma oedd y penodiad cyntaf swyddogol yn y Brifysgol pryd yr oedd darlithydd, o dan bolisi newydd yn y Brifysgol, wedi cael swydd sefydlog ac unplyg i ymgyfyngu i *gyfrwng* y Gymraeg. Tybiwn i fod hyn yn waith delfrydol. Ond mewn dwy flynedd yr oeddwn allan o'r swydd honno eto, ac wedi ymaflyd mewn swydd wahanol a fyddai'n profi'n fwy tyngedfennol yn academaidd na dim arall a wnes i erioed yn fy mywyd.

Ond efallai y dylwn i grybwyll y ffaith ddifyr fod cyfarfod cyhoeddus i staff y coleg wedi'i drefnu o fewn dau fis i'm penodiad cyntaf yn Aberystwyth i brotestio fy mod i wedi cael f'apwyntio. Brysiaf i ddweud nad yn f'erbyn i, er gwaethaf fy ngwendidau lawer, y cafwyd y brotest fawr. Ond protest oedd yn erbyn y ffaith warthus fod yna *unrhyw* bwnc heblaw'r Gymraeg yn cael ei ddysgu'n *swyddogol* drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar ôl y ddwy flynedd yn Aberystwyth yn darlithio ar Blato a Rousseau ac yn y blaen yn yr Adran Addysg, fe ges fy symud felly i'r hyn a elwid yn *Gyfadran* Addysg i *ymchwilio'n* llawn amser ar ddwy raglen: Datblygiad Iaith Plant yn gyntaf, ac yna'n ail Raddio'r Iaith, Patrymau, Dulliau, a Chyrsiau. Darllenais yn awr gannoedd o lyfrau ac erthyglau, gwneud nodiadau, astudio twf iaith Lowri, mynd gyda'r teulu i Quebec (at yr Athro gorau yn y byd ar y pryd mewn Didacteg iaith), am flwyddyn, ac ysgrifennu'n ddiddiwedd. Arbenigais yn Seico-systemateg Iaith.

Holwch am yr enwau 'Bobi Jones' ac 'R.M. Jones'. 'Bobi' oedd f'enw gartref a'r enw ar fy llyfrau cyntaf fel bardd. 'Robert Maynard Jones' oedd enw'r dystysgrif geni. Un tro, roedd fy mhennaeth adran yn y Coleg, sef Jac L. Williams, yn trefnu cyhoeddi cyfrol academaidd o'm gwaith drwy Wasg y Brifysgol. Doeddwn i ddim wedi rhoi fy enw ar y llyfr nac wedi'i baratoi'n derfynol. Ond fe aeth Jac rhagddi i gyhoeddi'r gyfrol. Fe'i dilynwyd gan gyfres o lyfrau tebyg ar thema iaith plant, dysgu iaith ac yn y blaen. A dyna'n syml sut y ces i R.M. Jones ar gyfer y dreth incwm a'r gwaith academaidd, a Bobi Jones ar gyfer gwaith creadigol, cerddi, nofelau a storïau.

Pan es-i i Quebec am flwyddyn, mynd yr oeddwn-i i eistedd wrth draed W.F. Mackey. Ef ar y pryd oedd y gŵr lletaf ei orwelion, y mwyaf creadigol, a'r mwyaf ffres ei syniadau yn y byd ar ddysgu ail iaith. Doedd neb erioed yng Nghymru wedi cael ei hyfforddi mewn Didacteg Iaith o'i fath ef. Doedd neb yng Nghymru – fel heddiw – yn ystyried bod eisiau dilyn cyrsiau a chynhyrchu cyrsiau ar seiliau gwyddonol, ac y gallai astudio seiliau twf iaith yn broffesiynol systemataidd wneud byd o wahaniaeth. Credais i, gan nad oedd ots ymhle y gweithiwn ond imi gyflawni f'ymchwil yn ôl y rhaglen a orchmynnwyd imi gartref, ei bod hi'n ddyletswydd arna-i er mwyn yr iaith i fynd i'r lle gorau y gallwn i yn y byd. Tybiwn i y byddai rhywrai gartref yng Nghymru yn y pen draw yn cael bod hyn efallai yn adeiladol. *Ond ym Mhrifysgol Quebec y ces i ddilyn un cwrs cwbl anghyffredin ar Systemateg y Meddwl gyda disgyblion Gustave Guillaume. Fe fu hyn yn*

*ddatguddiad i mi ac arhosodd yn ddylanwad ar fy holl waith byth wedyn.* Hynny a newidiodd fy mywyd academaidd.

**6. Sut y daethoch chi'n Gristion?**

Ychydig iawn o ddealltwriaeth oedd gen i o undod y Beibl cyn cael tröedigaeth. Yn fy ieuenctid, llyfr crefyddol hanesyddol oedd y Beibl, braidd yn anniddorol ac undonog. Yn ystod fy ieuenctid wnes i ddim ond dilyn meddwl confensiynol y rhyddfrydwyr yn yr ymdrech i osgoi ergyd amlwg oruwchnaturiol yr ysgrythur. Byddwn i ar y pryd yn darllen llawer am grefydd gymharol ac anghrediniaeth. Rywsut, roedd unrhyw beth, – fel mytholeg er enghraifft, – a oedd yn ceisio tanseilio'r Beibl, yn fwyd a diod imi, ar y pryd. Hynny yw, yr oeddwn i mewn rhigol hollol ddyneiddiol, yn galed mewn anghrediniaeth ddyngarol, heb glem am bwysigrwydd ystyried arwyddocâd a her y dimensiwn goruwchnaturiol.

*Darllen gwaith Saunders Lewis oedd y tro cyntaf imi gymryd y posibilrwydd o'r Goruwchnaturiol o ddifri.* A dechreuais o'r diwedd amau anghrediniaeth. Roedd cyfyngder y dimensiwn naturiol i'r Greadigaeth yn dechrau siglo, yn bennaf oherwydd astudio'r traddodiad Cristnogol yng Ngwareiddiad Cymru.

Yna, yn 1952, yn dair ar hugain oed, newydd briodi, ac yn byw yn Llanidloes, un noson es i gapel China St., yn ddiniwed reit, heb ddisgwyl dim ond oedfa gymun. Roedd y gweinidog ar y pryd, yn darllen y Gair cyn y cymun yn Luc 22, 21: '*Wele law yr hwn sydd yn fy mradychu gyda mi ar y bwrdd.*' Ac yna, stopiodd, oedodd ychydig, ac yn yr eiliadau yna, mewn bwlch rywsut, drwy'r Ysbryd Glân, fe ddaeth Iesu Grist yn fyw yn fy nghalon. Rhwygwyd y galon honno. Y fi oedd y bradychwr roedd e'n sôn amdano yn Luc. Rown i'n gwybod mwyach mod i wedi bod yn chwarae â chrefydd a sarhau Crist, *poeri yn ei wyneb*. Ac yno'n awr, mewn realiti o fath newydd, yn gwbl annisgwyl, ac yn groes i'r graen rywsut, roeddwn i wedi profi Iesu Grist yn bersonol. Roedd ef o'm blaen, wedi fy nharo i'r dim. Roedd e wedi anelu'i eiriau ata-i. Es i adre ac wylo'n enbyd, yn gyntaf o argyhoeddiad golau iawn iawn o bechod yn erbyn Duw. Ond wylo o edifeirwch hefyd, ac yna wylo'n gynnes wrth i'r baich symud yn raddol, wrth imi'i dderbyn e i'm calon. Ac fe welwn mor lân oedd Iesu Grist, mor llawen, mor fawr, mor gariadus, mor drugarog. Doedd neb mor rhyfeddol. Roedd y peth wedi digwydd yn anfodlon ac yn sioc.

Y Beibl roeddwn i wedi bod yn ei rwygo a'm rhwygodd i.

Cymerodd flynyddoedd imi sylweddoli beth oedd wedi digwydd, a blynyddoedd eto imi fynd ati i astudio trefn Duw a pherthnasoldeb hyn i'm bywyd bob dydd. Ond o hyn ymlaen, dyma oedd y peth mwyaf yn fy mywyd. Dyma'r peth cyntaf yn fy mywyd newydd rywfodd. Roeddwn i'n byw bywyd gwahanol. Roedd hyn yn llawer mwy na dim a glywais i am 'foesoldeb ' a phethau felly

yn y blynyddoedd cynt. Roedd yna berthynas newydd dragwyddol sbon wedi dod, yn orfoledd, ac yn dangnefedd. Wedi dod yn Gristion, fe deimlwn fod anian a chynnwys fy ngwaith academaidd hefyd wedi newid.

**7. Felly rydych wedi bod yn Gristion ers 60 o flynyddoedd. Beth sydd wedi cynnal eich ffydd dros y blynyddoedd hynny? Pam ydych chi'n dal yn Gristion heddiw?**

Does dim ond yr Ysbryd Glân ac Iesu Grist wedi gwneud hynny. Mi aethan nhw'n ddigon dwfn. O'm rhan i fy hun, dwi'n syrthio bob dydd, bob awr o bob dydd. Ond mae yna gymdeithas o Gristnogion o ddifri, ymrwymedig yn Aberystwyth, rhai sy'n adnabod yr Arglwydd Iesu Grist yn bersonol: i mi bu'n gwmnïaeth feunyddiol eithriadol o bwysig. A chwmnïaeth Beti ar yr aelwyd. Wedyn, darllen gwaith Cristnogion uniongred, yr hyn dwi'n ei alw'n Eciwmeniaeth glasurol y canrifoedd, oherwydd y rhain sydd wedi'u huno erioed gan yr un credoau, a'r un profiadau, a'r un awydd i ufuddhau i Grist. Mae yna eciwmeniaeth solet gyda saint yr oeoedd. Gweddïo bob dydd. Meddwl yn gyson bob dydd sut y dylai hyn oll arglwyddiaethu ar fywyd. Mae yna ddyledion di-ri i ffrindiau. Dwi wedi cael braint aruthr o gwmnïaeth eglwys gariadus a byw, a'm magu ar y ddysgeidiaeth Feiblaidd. Mae Iesu Grist wedi addo na all nac angau nac undim arall ein gwahanu ni oddi wrtho Fe. Hynny yw, gwn i os wyf yn glynu wrtho Ef, hyd yn oed er gwaethaf pob gwendid, fe fydd Ef yn ffyddlon i mi.

**8. Beth sydd wedi herio eich ffydd fwyaf dros y blynyddoedd?**

Un peth sydd *heb* herio fy ffydd yw dadleuon cwbl arwynebol anghredinwyr. A'r un mor aneffeithiol yw pregethu rhyddfrydol dyneiddiol, dyn-ganolog. Yr her fwyaf yw Satan ei hun, fy ngwendidau cyson fy hun, fy ffaeleddau cnawdol, fy malchder. Mae digon o elyniaeth ysbrydol, ac rwy'n ymwybodol iawn fod rhaid i mi ddefnyddio fy meddwl.

Ond diolch nad oes dim yn gallu trechu gafael Duw arnom ni, hyd yn oed pan na fydd ein ffydd ni ond yn ffydd unplyg fechan. Y Gwaredwr eithafol ei hun sy'n cynnal o hyd, ac Ef yn unig.

**9. A allwch chi ddweud rhywbeth wrthym am y cyfnod yn y 60au pan sefydlwyd Eglwys Efengylaidd Aberystwyth? Mae'n rhaid ei fod yn gyfnod cyffrous, pryderus, cythryblus, bendithiol?**

Dylwn i ddweud hyn rhag bod unrhyw gamddeall. Ychydig iawn o le oedd i mi yn y gwaith o sefydlu'r Eglwys Efengylaidd yn Aberystwyth. Doeddwn i ddim hyd yn oed yn y cyfarfod cyntaf nac yn bresennol ond tan rai misoedd wedyn. Ond rown i yn ei chefnogi hi o'r cychwyn cyntaf, ac yn wir *cyn* y cychwyn cyntaf. Roeddwn i eisoes wedi sefydlu, ers tro, grŵp bach o fyfyrwyr

Cymraeg yn y Brifysgol (a oedd yn agored i bawb), ac a oedd yn awyddus i drafod perthynas Cristnogaeth a'u bywyd bob dydd, ac i astudio'r Beibl yn thematig. Roeddwn i hefyd ers 1964 wedi sefydlu grŵp astudio rheolaidd yn ein cartref i Gristnogion yr ardal o bob enwad, fel y gallem ni astudio'r Beibl o safbwynt prif etifeddiaeth waredigol yr Eglwysi clasurol. Nid anghyffredin i'r niferoedd a oedd yn bresennol ostwng weithiau i ryw wyth neu naw, a chodi ambell waith i ugain. Beth bynnag, dechreusom ni ystyried argyfwng yr eglwysi sefydledig, eu marweidd-dra nhw, a'u diffyg sylwedd uniongred. A buom ni'n meddwl mai peth da – ac efallai'r ffordd i symud ymlaen – oedd drwy sefydlu seiadau agored Beiblaidd o'r math hwnnw ledled yr ardal gyfagos. Doedd cynnal yr arferiad o gapela ddim yn mynd i fod yn ddigon dwfn i'r dyfodol. Roedd Cristnogion a adwaenai'n bersonol yr Arglwydd Iesu yn brin, ac yn fynych yn unig ac yn bell oddi wrth ei gilydd. Efallai mai peth da (heb ymyrryd â'r enwadau o gwbl), fyddai cenhadu drwy sefydlu seiadau eraill, yn gyntaf yng Ngheredigion a godre Trefaldwyn. Wrth ddechrau gwneud hynny fe gaem weld wedyn sut y gallai'r symudiad ddatblygu. Bues i'n siarad ag Elwyn Davies, cyfarwyddwr Mudiad Efengylaidd Cymru, am y peth, a dweud wrtho tybed a allem ni chwilio am drefnydd i hyn. Gallai'r seiat godi hanner cyflog y trefnydd, neu gyfran o leiaf, a'r Mudiad yn cynnig y gweddill. Cyn pen ychydig o wythnosau, daeth Elwyn i'm gweld i, a dweud bod *Duw* wedi dod o hyd i'r trefnydd.

Roedd Gordon Macdonald yn ardal Comins Coch, Machynlleth, yn weinidog Wesle, a'i gydwybod ef ers rhai blynyddoedd wedi bod yn ei flino, yn arbennig ynghylch yr arfer o 'dderbyn aelod yn ôl oedran' ac nid yn ôl gwir argyhoeddiad neu dröedigaeth. Roedd hyn yn drysu'r diffiniad o Eglwys, corff Crist. Felly, pan es i at Gordon ar Fai 20, 1967 i roi cynnig iddo ddod i gychwyn seiadau yn yr ardal fel swydd, yr oedd Duw eisoes wedi bod yn siarad ag ef, yn arbennig ar sail Eseia 52: 11-12. Yr oedd ef yn barod, a Duw wedi bod yn pwyso arno eisoes. Ac yna, ar ôl symud i ardal Aberystwyth i'w waith newydd gyda ni, bu'n rhaid iddo drefnu'r Suliau i'w deulu wrth gwrs. Ac fe ddaeth nifer gryno o deuluoedd eraill at ei gilydd i ddechrau'r eglwys – un teulu o Wesleaid, un o'r Annibynwyr, dau yn Fethodistiaid Calfinaidd. Wedyn ymunodd myfyrwyr a nifer o rai eraill. Dyna gychwyn Eglwys Efengylaidd Aberystwyth. Ac felly, oherwydd cysondeb y dystiolaeth Feiblaidd yn ein plith, ac yn sgil gweddïo o'r galon, a moliant gorfoleddus, fe dyfodd yr eglwys newydd a chynorthwyo eglwysi eraill cyffelyb a dyfai ledled Cymru.

**Rhan 2 – Credoau**

**1. Bydd yn dda ystyried yn ddyfnach eich dealltwriaeth o'r ffydd Gristnogol:**

**a. Pwy ydych chi'n credu yw Iesu Grist?**

**b. Pam y bu Iesu Grist farw ar y groes?**

**c. Pam mae'r atgyfodiad yn bwysig i'r Cristion?**

Wel, Steff, dyma gwestiynau mawr iawn. Does dim modd cael cwestiynau mwy, na chwestiynau pwysicach. Ac eto maen nhw'n gwestiynau teg ac yn bosibl i'r Cristion o blentyn eu hateb nhw, a'u hateb nhw'n blwmp ac yn blaen, heb lol.

Sut mae mynd ati i ddelio gyda chwestiynau fel y rhain? Mae dyn yn dechrau, wrth gwrs, gyda'r Beibl. Dwi'n credu bod y Beibl yn ddigwyddiad goruwchnaturiol ac yn dweud y gwir bob iot. Ac mae'r Beibl er bod llawer iawn ohono'n anodd, yn ddigon clir i ateb pob cwestiwn ysbrydol o bwys yn gywir. Gair Duw yw'r Beibl i mi, er bod Duw wedi cyfryngu drwy ddynion. Mae'r Beibl yn ffrind inni oll. Does dim un gair ynddo heb reswm. Mae'n goleuo'r meddwl i gyd. Mae'n ysbrydoli, ac mae'n gydymaith braf bob dydd. Ellwch chi ddim darllen dim gwell.

Beth mae'n ei ddweud am eich cwestiynau chi yng ngolau'r Beibl? Iesu Grist! Fe yw canol y Beibl. Lluniwyd y Beibl o'r dechrau i'r diwedd i esbonio pwy oedd ac yw Ef. Erbyn hyn, rwyf wedi cwympo mewn cariad ag Iesu Grist. Mae'r Beibl wedi f'argyhoeddi i a datguddio mai Ef a greodd y byd. Ef oedd ac yw Duw, wedi dod i'r byd oherwydd pechod dyn, oherwydd fy mod i a chi wedi treisio'r drefn berffaith a fwriadwyd i ni. Daeth Iesu yn unswydd ar ein cyfer ni, oherwydd bod y berthynas rhyngddo Fe a ni wedi'i thorri. Perthynas oruwchnaturiol aruthrol yw hyn, oherwydd ei bod hi rhwng Duw a ni. Does dim modd mesur nac esbonio'n llawn mor aruthrol ddifrifol oedd colli'r berthynas brydferth honno a fwriadwyd rhwng y Creawdwr a'r creadur. Roedd y golled mor ofnadwy o ddwys nes na allen ni byth ein hunain ei hennill hi'n ôl. Allen ni byth gyrraedd Duw mwyach drwy'n nerth ni ein hunain. Roedden ni'n farw iddo Fe oherwydd ein pechod.

Ond fe drefnodd Duw ffordd. Ac roedd honno'n oruwchnaturiol eto wrth gwrs, ac oherwydd bod y drwg mor fawr, roedd yn rhaid cael adferiad mawr, a hynny y tu hwnt i ddeall llawn unrhyw ddyn naturiol. Roedd yn rhaid i Dduw ei hunan ddioddef a thalu'r gosb yn ein lle ni. Does dim y gallwn ni ein hunain wneud i ennill maddeuant, ond dod yn waglaw. Yma eto, mae'n rhaid inni sylweddoli'r dimensiwn goruwchnaturiol i'n bywyd.

Pam y daeth Iesu Grist i'r byd? Oherwydd baich o bechod goruwchnaturiol a rwystrai berthynas rhwng Duw a dyn. Daeth er mwyn talu dyled a oedd y tu hwnt i'n gallu ni i'w gwaredu.

Dyna oedd y farwolaeth ar y groes. Rhoddodd y Duw-ddyn, Iesu Grist, ei hun mewn cariad,

yn gyfan gwbl i dderbyn y gosb yn ein lle; i dalu'r iawn er mwyn i ni gael ein hadfer a chael ein derbyn yn ôl yn gyfiawn ac yn hollol lân, i'w deulu ef. Roedd yna dalu rhyfeddol ar y Groes wrth i Iesu Grist farw: Fe yn derbyn ein pechod ni, a ninnau'n cael derbyn ei gyfiawnder Ef wrth inni bwyso mewn ffydd arno Ef. Ni yn cael bod wedyn yn gyfan gwbl berffaith yn y pen draw ym mynwes Duw, a derbyn Bywyd a Gwynfyd yn ddiddiwedd lawen. Roedd y gosb yno'n wir gost am holl bechodau'r byd. Roedd yr Atgyfodiad wedyn yn gydnabyddiaeth mai Duw y Mab oedd hwn, ac fe'i gwnaethpwyd yn aberth perffaith ac yn dderbyniol i Dad Cyfiawnder. Roedd yr Atgyfodiad wedyn hefyd yn rhagflas ac yn arwydd i ni sy'n caru Iesu Grist y cawn ninnau yr un modd ein hatgyfodi yn sicr o'r bedd. Yn ei Atgyfodiad Ef, y mae yna addewid i bawb sy'n credu, hynny yw i'r rhai sy'n pwyso arno Fe am fywyd, y cawn ninnau ei ddilyn yn y man. Wrth gredu hyn, fe ddown i gymdeithas ag Ef ac i brofi o'i lawenydd Ef. Mae yn ennill ein meddwl, wedyn ein serchiadau, ac wedyn ein hewyllys. Dyna'i gynllun.

Mae'r thema hon, sy'n asgwrn cefn gogoneddus i'r Beibl ar ei hyd, yn rhyfeddol, ac yn gafael yn sicrach sicrach po fwyaf y ceisir ei ddarllen yn ofalus.

**2. Pwy yw eich arwr yn hanes yr eglwys?**

Pan dych chi'n gofyn cwestiwn fel hyn, mae'r Beibl ei hun yn cynnig cynifer o esiamplau o bobl – fel Dafydd Frenin neu Eseia yn yr hen Destament neu Pedr neu Paul neu Ioan neu Luc yn y Testament Newydd. Pechaduriaid i gyd wrth gwrs. Ond pechaduriaid mor rhyfeddol, alla i ddim ond plygu o'r tu mewn wrth glywed eu lleisiau nhw yn yr Ysgrythur. Wedyn yn hanes yr eglwys – cawn Awstin a Chalfin, Luther ac ymlaen drwy'r cenedlaethau hyd at Martyn Lloyd Jones, a ffrindiau anhysbys ymhlith yr eglwysi heddiw. Ond mae gennyf i ffefryn i mi fy hun. Dw'i wedi cael ei gwmni ef bob dydd bron ers trigain o flynyddoedd. Cymro yw ef, meidrolyn, ac dwi wedi darllen a chanu o'r galon gydag ef mor aml. Dw'i wedi astudio'i feddwl ef a'i fywyd mor ddygn fel na alla-i ddim ond cyfaddef fy mod i'n caru'r dyn yn rhyfeddol. Roedd ef wedi myfyrio ar y Greadigaeth a'i chynnwys, a chanfod cynllun Duw mor odidog. Roedd ef wedi dwlu ar Iesu Grist, ac wedi rhoi darlun mor llawn ohono. Bardd yw sydd wedi sgrifennu dwsinau o ganeuon perffaith. Roedd e'n adnabod yr Ysbryd Glân a'r Mab mor huawdl. Ac mae'n bleser melys i fynd gydag ef i ganmol yr Oen a fu farw drosom ni. Felly dwi'n mynd i ateb y cwestiwn amhosibl hwn sy gennych chi gydag un ateb posibl – William Williams Pantycelyn.

Dwi'n hoffi ehangder ei weledigaeth ar yr holl greadigaeth. Dwi'n hoffi'i bwyslais cytbwys ar deimladau a meddyliau. Ond yng nghanol ei lyfrau, mae'n dangos nad oes neb yn cael bywyd tragwyddol drwy gyfrwng teimladau yn unig. Does dim teimladau wedi'u croeshoelio drosom. Dyw teimladau ddim yn gwneud neb yn gyfiawn gerbron Duw.

Does neb yn cael ei dderbyn i galon Duw chwaith oherwydd cytuno â rhyw gredoau cwbl gywir yn y deall – hyd yn oed credoau mor ganolog ag Awdurdod Goruwchnaturiol yr Ysgrythur, yr Ymgnawdoliad, y Marw Iawnol, Atgyfodiad, Esgyniad a Dychweliad Iesu Grist. Popeth mor rhyfeddol. Nid credoau sy'n achub. Yr Achubiaeth i'r tlotyn a'i ddwylo gweigion yw'r hyn a *gyflawnwyd* gan y Duw-ddyn hardd ac annwyl, Iesu Grist ei hun, ar y Groes. Ef yw popeth. Ef 'wnaeth bopeth yn bwysig. Nid rhesymoldeb y ffeithiau na chynhesrwydd y teimladau sy'n rhoi cadwedigaeth i'r person efengylaidd mwyaf unplyg. Ond yr Iesu marw ei hun, yr Iesu byw ei hun, yn ei nerthoedd personol tragwyddol ei hun.  Fy Iesu i a'ch Iesu chi.

**3. Os yw'r pethau hyn i gyd yn wir, sut ydych yn esbonio'r dirywiad yn y ffydd Gristnogol yng Nghymru ?**

Mae'r esboniad am y drwg hwn hefyd yn y Beibl. Dwi ddim yn siŵr a yw'r ffydd Gristnogol yn waeth ei llewyrch heddiw nag yr oedd yn hanes yr Israel gyntaf yn yr Hen Destament. Ac a yw'n waeth nag yr oedd yn yr wythnos honno a arweiniai at y Croeshoeliad yn y Testament Newydd?

Mae'r drwg yn cynyddu pryd bynnag y mae dynion yn cefnu ar y gwir sydd yn y Beibl.

Fe fydda i'n  meddwl bod y dirywiad yn yr ugeinfed ganrif yn enbyd o bwdr. Mor ddiweddar â'r ganrif ddiwethaf, roedd yr arwyddion drwy'r byd gorllewinol yn waeth hyd yn oed nag ydyw heddiw mewn llawer o ffyrdd. Roedd yna lawer iawn o dwyll yn y rhyddfrydiaeth yn y ganrif ddiwethaf a oedd yn ceisio gwrthod y Duw-ddyn, Iesu'r Gwaredwr. A heddiw, mae'r darlun efallai'n gliriach wrth edrych yn ôl. Rydyn ni'n gweld beth sydd yn digwydd wrth fod dyn wedi'i roi'i hun yn y canol.

Pam mae wedi digwydd o gwbl? Yn baradocsaidd, oherwydd y llwythi o foesoldeb dyn-ganolog. Unwaith mae dyn yn sarhau Gair Duw ac yn ei ddyrchafu ei hun – ei feddwl, ei awdurdod, ei falchder ei hun – yn lle'r neges lân a dwyfol, yna mae'n gallu cyrraedd eithafbwynt  pryd y mae Duw'n gadael iddo i fynd ei ffordd ei hun. Mae cyffuriau a meddwdod, lladd plant yn y groth, treisio merched, dwyn plant a'u gwerthu nhw  –  ie, y pechodau papur newydd, ond yr anghredu hyll yn bennaf, mae'n meddiannu bywyd i gyd. Mae Duw yn caniatáu o fewn ffiniau i ddyn sylweddoli dyfnder y pellter hwnnw. Ond fe all Ef  hyd yn oed droi'i gefn am gyfnod, cyn inni sylweddoli o ddifri beth yw methiant y berthynas. Mae'n digwydd. A'n  gwaith ni,  sydd wedi clywed ei lais, yw dal yn ffyddlon, a charu Duw, yn unplyg, ac yn syml fel plant. Ceisio'n gorau glas ufuddhau iddo Ef, ac aros, aros gydag Ef, a'i wasanaethu yn y dulliau y mae Ef ei hun yn eu disgrifio yn Ei air.

Ni frysia'r hwn a gredo.

Erbyn hyn, mae'n anodd weithiau ddod o hyd i eglwys yn y Gymraeg lle y pregethir Iesu Grist yn ffyddlon, yn ôl y dystiolaeth yn y Testament Newydd. Ac un cwestiwn go bwysig a

esgeulusir yw – Sut y deuir yn aelod o gorff Crist? Mewn nifer o eglwysi mae pobl yn cael eu derbyn yn *aelodau* swyddogol o hyd yn ôl trefn eglwysig gan y swyddogion eu hunain. Mae hyn yn gamarweiniad dybryd ac yn gyfrifoldeb amhriodol. Yn y Beibl, gwaith Iesu Grist yn marw drosom ni *a hynny'n unig*, ac yna gwaith yr Ysbryd Glân yn cymhwyso hyn i ni drwy ein bywhau yn ysbrydol, dyna sy'n gwneud aelod o gorff Crist. Dim arall. *Mae niwlio ystyr bod yn aelod o gorff Crist wedi camarwain miliynau.* Mae wedi mawrygu parchusrwydd. Gwaith y Gwaredwr yn unig yw aelodi, a hyn bellach sy'n cael ei ddisodli gan ddyn. Duw yn unig sy'n gwybod ac yn cydnabod pobl yn aelodau. Drwy drugaredd i ni oll, yr efengyl seml yw nad oes neb sy'n ceisio'r Arglwydd o ddifri yn cael ei wrthod.

4. **Mae rhai heddiw yn dadlau mai rhywbeth anwaraidd, hyd yn oed barbaraidd, yw'r ffydd Gristnogol. Mae Duw y Beibl yn greulon, meddent. Mae llawer o greulondeb yn y Beibl. Ac anffyddlondeb. Beth yw eich agwedd chi at y Beibl yn hynny o beth?**

Mae'n hollol wir bod llawer yn y Beibl sy'n anwaraidd. Mae'r gwir am bechod dyn yn cael ei gyflwyno yno heb flewyn ar dafod. Ac mae eisiau gwneud hynny. Bu rhai o feibion Jacob yn enbyd o bechadurus. Rhy hir y bu'r parchusion yn ceisio dadlau bod pawb heddiw yng Nghymru sy'n mynd i'r capel yn neis yn y bôn, ac yn gwneud eu gorau. Yn aml, dŷn ni ddim yn cymryd y sefyllfa o fod ar wahân i Dduw o ddifri. Aeth pwlpudau i wrthod datgan bod pawb ohonom ni mewn angen dybryd, a'r pechod hwnnw o hunanfodlonrwydd yn ein gwahanu fwyfwy oddi wrth Dduw. Peidiwyd â deall natur pechod ysbrydol. Wedi gweld ymladd cynifer o ryfeloedd dros bedwar ugain o flynyddoedd ar y ddaear hardd ond ofnadwy o ffiaidd hon, alla'i byth fychanu creulondeb dyn. Mae eisiau bod yn effro i hyn.

Dwi'n credu mai Cariad Duw yn Ei Air sy'n dweud y gwir amdanom. Os ydyn ni'n caru ein cyd-ddynion, ddylem ni byth yn ein medwl ddofi difrifoldeb aberth Duw, a'r rheidrwydd am yr aberth hwnnw. Mae'n atgas gen i'r celwyddau cyfarwydd mewn llawer o'n capeli sydd wedi cael eu rhaffu ynghylch cyflwr pob dyn, yn arbennig mewn angladdau. Mae gen i dosturi a pharch at ddyn ei hun, cofiwch, ond gofid calon enbyd am y celwyddau sy'n difetha gobaith y bobl sydd mewn cymaint o angen, ac sy'n marw heb adnabod Duw na chlywed dim heblaw dyn-ganolrwydd.

5. **Fel meddyliwr ac athronydd, a ydych wedi cael anhawster ag unrhyw rannau o'r Beibl? Sut ydych wedi goresgyn hyn?**

Dwi'n cael anhawster wrth gwrs gyda deall meddwl Duw. Pwy a all ddisgwyl deall ond

ychydig bach, bach? A dwi'n cael anhawster mwy mewn ufuddhau. Ond er mwyn darllen y Beibl, dwi'n meddwl mai'r cynllun gorau yw dechrau darllen lle y mae'n ddealladwy. Aros gyda'r efengylau yn y dechrau am sbel, a throi'n ôl atyn nhw'n gyson. Yn y fan yna y clywn Arglwydd y Bydysawd oll ei hun fel person, a'i neges (ar ei phuraf a'i llawnaf) yn cael ei datguddio i bobl am y tro cyntaf. Dyma eiriau cenhadol eu hunain gan y meddyliwr mwyaf a fu erioed. Dyma'i fywyd, ei gymeriad ei hun; ac mae'r peth pwysicaf – sef ei farwolaeth – yn cael sylw cyflwyniadol a manwl ar y lefel fwyaf uniongyrchol. Ac mae'n hyfrydwch o'r mwyaf cael efengylau sy'n ei gyflwyno Ef mewn gwahanol leisiau. Yr hyn a gyflwynir yw Duw Cyfiawnder, Trugaredd a Barn.

Ond mae'r Ysbryd Glân ar waith yn ddiwyd wedyn yn yr Actau yn cyflwyno bywyd yr Eglwys Gristnogol – ein heglwys ni ei hun – mewn modd sy'n drawiadol iawn. Fe all yr Ysbryd Glân ddysgu i'r meddwl ymddiried yn y pethau hyn oll a ddywed Duw wrthym ni heddiw.

Ac ar ôl hynny, mae'r epistolau drwy'r Ysbryd Glân eto – yn myfyrio am yr Efengyl mor gyrhaeddgar, allwch byth gael digon. Maen nhw mor rhyfeddol, hyd yn oed pan fydd ein hymennydd ni'n gorfod sefyll yn ôl yn fynych, yn ddiymadferth ond yn addolgar wrth sylweddoli ychydig bach – ond digon – o'r athrawiaethau hyn.

Does dim eisiau inni gywilyddio am ein bod ni'n methu â dirnad holl ddyfnderau Paul neu Ioan. Mae hyd yn oed Pedr y Pysgotwr yn dreiddgar y tu hwnt i ni weithiau. Ond O! Maen nhw'n odidog ac yn fwyd i'r enaid.

Ond wedyn yn fy marn i, ar ôl sicrhau bod y fframwaith sydd yn y *Testament Newydd* yn gynnes yn ein calonnau, dyna'r pryd i droi at yr Ysgrythurau yn yr *Hen Destament.* Sôn am Iesu Grist y mae'r rheini hefyd, a gallwn ddilyn y ffordd raddol y mae Ef am inni ddarllen yr Hen Destament, drwy chwilio amdano Fe, a'i fwynhau Ef ynddo. Felly y dilynir hanes adeiladu cenedl fawr iawn, ond ofnadwy; a'r un pryd – yn wir yr un peth – dilyn hanes adeiladu'r Eglwys, yr Israel gyntaf. Mae am inni Ei adnabod mor llawn ag sy'n bosibl. Yn wir, y mae parchu'r Hen Destament, a chanfod goleuni'r Hen Destament hefyd yn rhan werthfawr iawn o'r dasg honno o adnabod yr Efengyl. Anturiaeth fawr yw'r Beibl o'r dechrau hyd y diwedd. Ond mae eisiau mwy nag egni i fynd drwyddo.

Dwi ddim wedi cael anhawster o gwbl yn yr un lle ag y bydd ysgolheigion rhyddfrydol yn cael anhawster. Mae bron popeth a oedd gan mlynedd yn ôl wedi achosi trafferth iddyn nhw wedi clirio neu'i esbonio erbyn hyn. I mi, erbyn hyn, dyw'r hyn sydd ar ôl, sy'n peri 'anawsterau' archeolegol neu ieithyddol neu hanesyddol i rywrai, ond i'w briodoli i ragdyb naturiolaidd. Ac i mi, y mae bywyd yn lletach o lawer na hynny. Ysfa aruthrol mewn dyn am anghredu yw'r esgusodion a ailadroddir o hyd mwyach. Mae'r holl anawsterau mewn gwirionedd yn tarddu o'r tu mewn.

6. **Rydych yn eich disgrifio eich hunan fel person 'efengylaidd'. Mae'r gair yn cael ei ddefnyddio mewn pob math o ffyrdd yn y cyfryngau. Mae ansicrwydd yn aml ynghylch ystyr y gair. A allwch esbonio'r ystyr? Onid pobl gul, wrth-academaidd yw pobl efengylaidd?**

I mi, mae yna ddiffiniad triol wedi dod yn fwyfwy eglur i esbonio beth yw'r pwyslais efengylaidd diffiniol:

*Yn gyntaf*, pobl ŷm ni sy'n credu bod y Beibl yn ei gyfanrwydd yn wir bob gair, ac yn awdurdod ar ein meddwl a'n bywyd. Daethom i'r casgliad hwn wrth ddarllen y Beibl yn onest ac wrth weld y gelynion yn cilio fesul un, ac wrth brofi'r gwirionedd ym mhob modfedd o'r bersonoliaeth. *Yn ail*, yr ŷm ni'n pwysleisio achubiaeth, hynny yw tröedigaeth, sef aileni ym mywyd y person sy'n credu yn Iesu Grist ac yn Ei garu, ac yn derbyn marwolaeth Crist ar y Groes yn iawndal am bechod. Dyna'r lle y mae Duw yn dod yn fyw ac yn real yn y galon. Rhaid yw aileni. *Yn drydydd,* rhan o natur person felly yw cenhadu, peidio â chadw'r profiad yn breifat. Mae yna awydd o ryw fath i rannu'r newydd da. Hynny yw, rywsut, mae'n amhosibl cadw'r fath ddarganfyddiad a newid sydd wedi digwydd i gredadun heb ledu'r sôn am hynny i eraill. Y tri pheth yna i mi sy'n diffinio'r gair 'efengylaidd'. Ceir cryn dipyn o gamddeall am y gair hwn, ac nid ar ein gelynion y mae'r bai yn unig. Weithiau yr ŷm yn gofyn amdani, drwy redeg ar ôl mân faterion.

Wrth gwrs, mae llawer o efengyleiddwyr yn gallu bod yn enbyd o annoeth, ac y mae'r cyfryngau, yn ôl natur y cyfryngau, yn hoffi symleiddio a dethol a chartwneiddio. Y newyddiadurol sy'n gwerthu; ac nid y gwirionedd. Ac rŷn ni i gyd yn ffaeledig wrth gwrs. Ond y mae'r efengyl yn ei doethineb yn gallu bod yn gyflawn yn y bersonoliaeth ddynol, i'r meddwl, i'r teimlad ac i'r gwasanaethu. Ac o ran ei hastudio hi, ie, yn academaidd mae hynny'n dasg ddiderfyn o gyfoethog. Mae'n gofyn pob dawn a phob gallu, ac mae'n ddigonol i ateb ynglŷn â hanfod bywyd. Oherwydd bod dyn syrthiedig wrth natur yn chwilio pob cornel i danseilio'r neges Gristnogol, aeth Cristnogion efengylaidd eu hunain ati i astudio'n ddwys i esbonio ac i ddadansoddi'r Beibl a'i ddysgeidiaeth yn sylweddol. Cawn ddarllen ysgolheictod bellach gan wir gredinwyr. Diolch am glywed y credu. Ac mae'n weddus bod meddylwyr sydd wedi cael eu donio'n ddeallol, yn canfod atebion digonol i bob tanseilio honedig a gafwyd gan yr anffyddwyr sy'n elyniaethus. Dyna'r adain academaidd i'r ffydd. Ond nid y pen a'r ymennydd sy'n gwrthod wynebu'r ysgolheictod cadarnhaol hwn yn y bôn, ond y galon a'r ewyllys.

7. **Rydych yn enghraifft loyw o Gristion efengylaidd yn mwynhau celfyddyd a llenyddiaeth. Sut mae cysoni Cristnogaeth â bod yn llenor? Onid yw hyn yn "fydol"?**

I mi, y mae hwn yn gwestiwn pwysig iawn yn bersonol, oherwydd fy mod wedi treulio cymaint o amser, yn sgil fy ngalwedigaeth, i bendroni amdano. Mae yna lawer o'r datguddiad Cristnogol sy'n help i adeiladu ateb. Ond mae'r ateb yn gwreiddio'n gyntaf yn y gorchymyn cyntaf a roddodd Duw yn benodol i ddyn. Dywedodd wrtho beth oedd ei waith sylfaenol i fod yn y Greadigaeth, bob un: yn Genesis y bennod gyntaf, dŷn ni'n darllen: 'Byddwch ffrwythlon ac amlhewch, llanwch y ddaear a darostyngwch hi.' Dyma'r ddyletswydd ymarferol ac amlwg i bobun. Gweithredu Gras Cyffredinol. Ond yn fuan ar ôl derbyn y cyfarwyddyd hwn, oherwydd balchder cwymp Adda ac oherwydd anwybyddiaeth gyson dyn o gymdeithas Duw, roedd Noa a'r byd o'i gwmpas yn wynebu cosb fawr. Rhaid oedd ailddechrau fel petai, ac mae Duw yn dewis rhoi ail gyfle i ddyn. Yn Genesis y nawfed bennod, mae'n aralleirio'r gorchymyn diwylliannol yn yr adnod gyntaf a'r seithfed. Mae'n galw hyn yn 'gyfamod': os bydd dyn yn ufuddhau i'r amodau hyn, bydd Duw yn darparu hen ddigon o gynhaliaeth iddo. Ac mae'n rhoi enfys yn y nen fel arwydd o'r cyfamod (neu'r cytundeb) o'i ewyllys Ef. Ffrwythloni'r ddaear yw'r ddyletswydd feunyddiol i bawb.

Dyna gyfeiriad y gorchymyn cyntaf erioed ar ddechrau'r bywyd ar y ddaear. Wedyn, fe geir dyn fel stiward, i fod yn gynrychiolydd i Dduw fel petai, i arglwyddiaethu'n ofalus ac yn ostyngedig ar y ddaear. Mae ef i geisio sancteiddhad bob amser, ymhob dim. Symuda'r Cristion ymlaen, wedi'i gyfiawnhau gan Iesu Grist ar y Groes, unwaith ac am byth, sef dechreuadau newydd y Cristion, y mae'r credadun i fod i ddechrau ac i barhau i *sancteiddio*, hynny yw i sylweddoli bod popeth wedi'i neilltuo i Dduw. Nid rhywbeth o fewn ffiniau adeilad tŷ cwrdd yw sancteiddhad. Ond hyn sy'n ei ddilyn i'w waith, i'w deulu, i'w fywyd cymdeithasol, bob swydd a thasg, mae i fod i weithio ym mhopeth er clod i Dduw. Nid iddo'i hun, ond er mawl i'r Gwaredwr. Mae yna gyfeiriad ac ystyr i fywyd. Mae ein holl waith i fod er gogoniant ac ufudd-dod i Dduw.

Ac yn hyn o beth, y mae'r celfyddydau, miwsig a barddoniaeth, a phob celfwaith, yn gymwysedig gyda gwyddoniaeth a masnach i'r un perwyl. Mae pob dim yn eiddo i Dduw – coginio, amaethu, – a marw. Llenyddiaeth hefyd, sydd felly i fod yn fodd i adeiladu harddwch y meddwl mewn iaith, ac yn ddyrchafiad i fywyd, mae hyn i fod yn fwyd i'r dychymyg ond yn fodd hefyd i ddyrchafu cread Duw ac Ysbryd Duw mewn geiriau, mewn celfyddyd a drefnwyd hefyd gan Dduw. Mae llenyddiaeth i fod i ymwneud â phopeth, ac yn tarddu o ras cyffredin Duw. Yn wir, mae pob llenyddiaeth yn y byd wedi tarddu o'r ymwybod o Dduw: ewch yn ôl yn hanes llenyddiaeth pob gwlad, y mae'n ymgysylltu â mawl i Dduw.

Mae llenyddiaeth yn gallu bod mor rhyfedd o hardd. Rhoddodd Duw lenyddiaeth er mwyn cyfoethogi dychymyg, synhwyrau, profiad ysbrydol gras cyffredin, ac agor darlun o'r greadigaeth i ddyn cyfyngedig. Wrth drafod fy ngwaith yn rhan gynta'r Cyfweliad hwn, fe fues i'n sôn fwyaf am y

gwaith academaidd fel fy ngalwedigaeth bob dydd. Ond i mi'n bersonol, fy marddoniaeth yn bersonol, fy ngherddi, yw'r hyn a oedd bwysicaf i mi yn fy ngwaith. 'Fy Mawl' dwi'n galw'r peth.

8. **Beth am sefydlu eglwys uniaith Gymraeg? Rwy'n cofio clywed rhywun yn dweud mai un o nodweddion mawr yr eglwys Gristnogol yw ei hamrywiaeth. Ond onid yw eglwys Gymraeg yn rhannu Cristnogion oddi wrth ei gilydd?**

Yn fy nghyfrol ar Bantycelyn, bûm yn trafod y ddwy thema Feiblaidd fwyaf, sef y Greadigaeth a'r Waredigaeth.

Mae'r cwestiwn ynghylch ffrwythlondeb iaith yn perthyn i'r Athrawiaeth am y Greadigaeth. Yr oedd yna duedd yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg, ymhlith Pietistiaid, i fwrw gogoniant Duw yn y Greadigaeth i'r cefndir. Ymgyfyngwyd i Waredigaeth. Oherwydd imperialaeth oes Fictoria, tueddwyd hefyd yn ddifeddwl yn ei sgil i gefnogi'r fframwaith i ladrata a lladd diwylliannau bychain. Ac nid oedd dysgeidiaeth Gristnogol am 'ddiwyllio' wedi cael llawer o sylw ar y pryd. Cafwyd awydd i ddifa amrywiaeth, ac i fawrygu undonedd ac unffurfiaeth.

Gellid cael llawer o bobl weddol ddiwylliedig a duwiolfrydig yn y dyddiau hynny na hoffent weld yr iaith Gymraeg yn ffynnu. Ymgaledent rhag prydferthwch diwylliant sensitif ffrwythlon.

Mae gen i wrth law yn awr gyfrol gan y cawr difyr, y Parch. R. Jones, Llanllyfni. Dyma'r teitl *Cydymaith Dyddanus, sef Byr-Hanesion Hynod.* Dyma a ddywed yn y 'Rhagymadrodd': 'Gan y cynwysa amryw o ffraeth-atebion a bâr i lawer chwerthin wrth eu darllen, nid yw yn anhebyg na fydd rhai hynod o santaidd yn beio oblegyd hyny am y tybiant nad ydynt angen geiriau segur, a'u bod yn diraddio y pethau da yn y llyfr'.

Dyna'r culni sy'n tarddu o fychanu doniau da diwylliant. Pietistiaeth oedd y term amdano.

Gadewch i mi drafod y cwestiwn hwn yn syml mewn un cyd-destun efengylaidd. Fe glywch chi rai efengyleiddwyr gwaetha'r modd yn ceisio Seisnigeiddio'u gwaith er mwyn efengyleiddio meddan nhw. Maen nhw'n gresynu fod y fath beth â'r iaith Gymraeg yn bod. Gorau po gyntaf y bo'n marw. Mae'n niwsans i genhadu. Wedi'r cwbl – (arhoswch am y slogan) – 'Mae'r efengyl yn bwysicach na'r iaith'. Defnyddiwyd bwganod fel cariad eilunaddolgar at ddiwylliant ac ymddygiad Cymreictod eilunaddolgar (yn lle Cymreictod a Diwylliant o fewn Penarglwyddiaeth Duw) fel esgusodion i osgoi ein gwaith priodol o ddiwyllio ein gwlad ein hun yn ymarferol.

Ond maen nhw'n gwneud hyn, heb yn wybod, o fewn cyd-destun o ragfarnau cryf yn y gymdeithas. Israddoldeb (nid gostyngeiddrwydd iach) sy'n eu gyrru. Ac mae yna sawl rheswm syml a dealladwy am hyn. Mynd gyda'r llif. I'r pant y rhed y dŵr. Yn y berthynas rhwng y diwylliant bach a'r diwylliant mawr, bu'r diwylliant mawr erioed yn trachwantu am drechu'r bach. Cawn

ddigon o enghreifftiau am hyn yn yr Hen Destament. Wedyn, fe all rhywrai ymhlith pobl y diwylliant bach sy'n rhan o'r sefyllfa hon gydweithredu â'r israddoli hwnnw, gan fod cymhleth israddoldeb mor aruthrol o dreiddgar. Fe ddefnyddir y gair 'cyfleustra' wrth ddefnyddio'r iaith bwerus yn esgus dros beidio â gweithio drwy'r Gymraeg. Mae'n rhwyddach am resymau hanesyddol weithio yn Saesneg. Ond bob amser bron, ynghanol hyn, mae'r ffaith seml fod ambell unigolyn yn methu'n annigonol â thrafod cenedl ddwyieithog yn weddol gyfartal, ac mae'n rhoi rhyw fath o esgus iddo gasáu'r hyn sy'n wan fel pe bai'n rhwystr tybiedig. Briw i mi mewn rhai trefydd oedd gweld Rhyddfrydwyr crefyddol yn well Cymreigwyr na rhai Efengyleiddwyr.

Cafwyd yn ddi-dor fil a hanner o flynyddoedd o wareiddiad Cristnogol Cymraeg. I mi y mae'r etifeddiaeth deg hon yn un o drysorau'r ddaear. Yn y genhedlaeth hon fe'n cyrhaeddwyd ni. A dyma'r anthem nawr:

"Gerbron fy nghymydog paganaidd, dewisaf beidio â bod yn dystiolaethwr yn y Gymraeg. Efengyleiddiwr dw i. Dewisaf beidio yn y bôn â chynnwys y Gymraeg yn fy mywyd Cristnogol. Nid wyf yn sefyll fel dolen gydiol yn yr olyniaeth gadarn. Nid wyf yn bwysig wedi'r cwbl. Gall rhywun arall wneud hynny. Fy nhystiolaeth i mewn meicrocosm yng Nghymru yw tystio am fywyd *heb* Gristnogaeth Gymraeg a'i hunaniaeth unigryw i bob pwrpas. Ni chynhaliaf yr Eglwys yn y Gymraeg."

"Yn fy nhystiolaeth i'r efengyl Gristnogol, holltaf y cyfanrwydd Cristnogol yn ein hetifeddiaeth. Gwadaf yr unplygrwydd sy'n cynnwys y Gymraeg. Ildiaf fy nghrefydd o flaen pwysau poblogaidd a mwyafrifol yr imperialaeth ddiwylliannol. Nid cyfanrwydd yw fy nghyfrifoldeb i. Chwaraeaf y ffon ddwybig seicolegol. Mae hyn yn golygu bod cyfanrwydd cynhwysfawr yn cael ei wadu i'm credo i. Hynny yw, o'm rhan i, myn yr efengyl bietistig fewnddrychol niweidio y cydwead Cristnogol ar lawnder bywyd. Nid wyf yn tystiolaethu i neb fod Gras Cyffredinol llawn yn eiddo i Dduw. Agoraf gornel i awdurdod personol ysbrydol yn unig. Ni chyflawnaf genadwri ar bob modfedd o fodolaeth. Gwasgarog a rhanedig yw'r Golwg ar Deyrnas Crist. Caiff ddyfodol fynd rhagddo heb y gornel gymdeithasol a diwylliannol Gymraeg."

"Os daw diwygiad bellach, gellir canu clod yn Saesneg a gweddïo yn Saesneg, gellir ysgubo o'r neilltu y credu a gafwyd gan William Morgan, Pantycelyn, a John Elias. Mae rhywbeth wedi digwydd i ni. Os wyf am dystiolaethu i genhedlaeth allan fan yna sy'n dysgu caru'r Gymraeg o'r newydd, cânt ddod i'm gweld i o fewn carfan arall. Gadawaf i'r gwareiddiad Cymraeg, a fydd ar ôl, fodoli heb Gristnogaeth efengylaidd. Caiff Cymru Gymraeg aros mwyach gyda gweddillion yr Efengyl Gymdeithasol."

Soniais am y gorchymyn diwylliannol, yn Genesis 1, i ffrwythloni ac i wasgaru ac i amlhau a llenwi'r ddaear. Ac wedi'r dilyw, dyma Noa eto'n derbyn yr un siars. Mae Duw yn gwneud hyn

drachefn yn y Salmau. Mae'n tanlinellu hyn yn gyson drwy'r Beibl. Ond y mae yna wedd ieithyddol arall i'r drefn ddiwylliannol hon. Sef Babel. Duw ym Mabel sy'n cyfiawnhau'r Gymraeg i'r genhedlaeth hon. Ar ôl Noa, mynnodd y bobl, a dyfasai'n falch ac yn groes i orchymyn Duw, awgrymu, "Dewch, adeiladwn i ni ddinas ...” medden nhw, “rhag ein gwasgaru dros wyneb yr holl ddaear." Roedden nhw eisiau canoli er mwyn bod yn gryf. Ond "fe ddisgynnodd yr Arglwydd i weld y ddinas ac yno cymysgodd yr Arglwydd iaith yr holl fyd, a gwasgarodd yr Arglwydd hwy oddi yno dros wyneb yr holl ddaear". Yn unol â'i orchymyn a'i ewyllys, Duw a wnaeth hyn oll adeg Babel, o'i drugaredd a'i ddaioni, er mwyn hyrwyddo amrywiaeth ymhlith pobl o'r un waed ledled y ddaear. A dyna'r sail i holl amrywiaeth ieithoedd a thafodieithoedd y byd, gan gynnwys y Gymraeg. Un math o greadigaeth a brofwn ni mae'n wir yn ein cornel o'r ddaear; ond gydag un efengyl fydeang; a chydag amrywiaeth hardd o ddiwylliannau. Gweithred ac ewyllys Duw oedd yr amrywiaeth hwn oll.

**9. Bellach, mae'r eglwys yn crebachu yn y gorllewin; pobl yn troi yn erbyn Iesu Grist – Clywsoch rai'n holi: Sut ydych chi'n cyfiawnhau treulio amser yn darllen a llenydda yng nghanol hyn. Oni ddylai pob Cristion dreulio pob eiliad o'i ddydd yn dweud wrth bobl am Iesu Grist ac yn pregethu?**

Dwi'n meddwl mai cwestiwn go unplyg gan rai Cristnogion unplyg yw hwn. A dwi'n deall y taerineb. Ond y gwir yw bod yn rhaid i rywrai fod yn drydanwyr, neu'n blymars, neu'n athrawon ysgol neu'n gasglwyr sbwriel, efallai am ganrifoedd eto. A mwy na hynny, rhoir Gras Cyffredin ar gyfer hyn – bywyd, nerth, gallu, i bob math o bobl. Duw biau'r cwbl. Mae Duw ei hun yn ei orchymyn diwylliannol yn Genesis wedi rhoi pob math o ddoniau i weithwyr, ac wedi rhoi amrywiaeth o gynhaliaeth i ni ar y ddaear. Mae Ef yn adeiladu Teyrnas. Hynny yw, y mae Ef yn y Beibl yn darlunio'r bywyd da i'r Deyrnas hon hyd yn oed yn awr: y patrwm o waith a mwynhad sy'n dyrchafu bywyd oll ('life-enhancing'). Ac y mae'n bwysig i'r lleygwr sylweddoli llawnder ac ehangder daioni'r ddaear, a'i sancteiddio, cyn belled ag y gall. A diolch. Mae mawr angen wrth gwrs i ddyn ar y ddaear geisio Duw iddo'i hun a cheisio ailenedigaeth, a chaiff gymorth aruthrol yn y gair a bregethir. Ond gwaith mwyaf y greadigaeth a dyn yn gyffredinol yw moli Duw mewn gair a gweithred ym mhob peth. Gogoneddu Duw'r Creawdwr a'r Gwaredwr, dyna brif waith a hyfrydwch pob Cristion.

Dwi'n credu bod pob pregethwr uniongred yn derbyn galwad arbennig iawn gan Dduw, hynny yw, mae'n profi pwysau mewnol o rywfath na ellir ei wrthwynebu. Does dim galwedigaeth fwy aruchel na chyflwyno efengyl y Groes ac arwain pobl anghenus i adnabyddiaeth o'r Arglwydd

Iesu Grist drwy gyhoeddi Gair Duw. Ond mae llawer o bobl sydd mewn swyddi eraill a chanddynt ddoniau eraill drwy Ras Cyffredin ac Arbennig yn teimlo rhyw fath o bwysau ysbrydol dilys hefyd os ydynt wedi derbyn Maddeuant; ac i ryw raddau er bod y ffyrdd o weithredu yn amrywiol, mae pob Cristion i fod yn dyst dros Iesu Grist yn y cwbl o'i fywyd. Ac felly dwi'n ystyried mai'r ateb i'ch cwestiwn yw bod yna her i efengyleiddwyr oll heddiw o bob dawn i ogoneddu Duw a'i wasanaethu orau y gellir ym mhob man a phob amser yn ddi-baid. Nid pawb sy'n cael yr arweiniad i bregethu.

**10. A oes dyfodol i Gristnogaeth?**

Tra bydd Duw, fe fydd yna Gristnogion – ei blant**.** Maen nhw eisoes yn derbyn perffeithrwydd tragwyddoldeb yn yr ysbryd hyd yn oed yn awr pryd y mae eu gwareiddiad yn llyfu'r llawr o ran bydolrwydd. Yn wir, gyda diwedd y byd, a'r farn, fe gyfyd y cyrff ac ymuno unwaith eto â'r eneidiau Cristnogol sydd eisoes ym mynwes y Tad nefol. Wela i ddim unrhyw sail dros anobeithio am Dduw. Tra bydd cariad Duw ar waith, fe allwn dristáu, bid siŵr, ym mhob amgylchiadau wrth weld ein pechod: mae'n briodol ein bod ni'n edifeiriol drist. Ond dyw Duw ddim yn ewyllysio ein bod ni'n aros mewn tristwch. Rŷm ni'n cael moliannu Duw a'i fwynhau Ef yn oes oesoedd nawr. Mae'n Duw ni mor rhyfeddol: dim ond llwyddiant, Ei lwyddiant Ef sydd o'n blaen:

> Dring i fynydd uchel;
> ti Seion, sy'n cyhoeddi newyddion da,
> cod dy lais yn gryf;
> ti, Jerwsalem, sy'n cyhoeddi newyddion da
> gwaedda, paid ag ofni.

**11. Rych chi'n pwysleisio nad diwedd yw tröedigaeth, felly, ond dechrau?**

Fel y gwyddoch chi, ar ôl y dröedigaeth, sancteiddhad yw'r ail gam mawr. A dwi'n gweld y peth mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, y Sul. Y peidio. A'r adeiladu. Byddwn i yn meddwl am yr eglwys fel cynulliad sy'n cynnal cyd-addoliad yn gyntaf. Mae yna duedd, i ni sy'n efengyleiddwyr, synied mai prif waith yr Eglwys (yn arbennig gan arweinwyr) yw arwain chwilotwyr di-dduw i fywyd newydd yn yr Arglwydd Iesu Grist. Ond mewn gwirionedd, ail beth yw achubiaeth dyn. Y prif beth yw gogoneddu Duw. Cyfarwyddir meddyliau i ogoneddu Duw, sef prif swydd y Greadigaeth oll. Ceisir dangos sut y gellir cydweddïo a chyd-foli. Dangosir fel y gall bywyd yn

gyffredinol fod yn ufudd-dod i Dduw ac yn anrhydedd iddo. Bydd hynny'n bersonol, yn foesol, ac yn deuluol; ond bydd yn unplyg, a'n bryd ar Dduw hyd yn oed mewn cyfnod llwm. Rhan o'r gogoneddu Duw yw dwyn pechaduriaid at Grist.

Ceir, (heblaw y chwilotwr am Grist), yr hyn a alwaf yn 'swydd y lleygwr'. 'Y chwe diwrnod arall'. Mae angen i weithwyr cyffredin yr eglwys ystyried sut y mae pob peth, sy'n cael ei wneud gynnon ni ble bynnag, yn dod o dan Benarglwyddiaeth Duw. Does dim modd efallai i weinidog weithio allan sut yn y byd y mae pob Cristion yn gallu gwasanaethu Duw ym mhob math o ffyrdd rhyfedd. Rhaid i'r lleygwr o Gristion drosto yntau ei hun feddwl yn ddwys am hyn. Mae Duw wedi rhoi gorchymyn sylfaenol i bob un, Gristion neu beidio. Fel y gwelsom eisoes, fe'i gelwir yn Orchymyn Diwylliannol. Rhoddwyd y gorchymyn hwn i Adda ('Dyn', sef tad yr hil) yn gyntaf, wedyn i Noa, wedyn yn y salmau. Sef i ddiwyllio'r byd, i ddarostwng y ddaear a ffrwythloni. Pery'r cyfrifoldeb er gogoniant i Dduw. Rhaid bod o ddifri ynglŷn â hyn: mae'n sylfaenol i fywyd ymarferol ar y ddaear.

Sut y mae rhywun yn gallu gwneud hynny? Mewn sawl ffordd – wrth gwrs drwy fod yn fam neu'n wraig-tŷ, yn athro ysgol, yn feddyg, yn adeiladwr, yn blymer, yn amaethwr, yn ddiddanwr, yn wyddonydd, yn fardd, yn wleidydd, ayb.. Ond y mae pawb yn gwneud hynny, meddwch, nid Cristion yn unig. Pa ots am bethau daearol? Pa ots am Ras Cyffredin? Mae llawer o ots i Dduw. Fe fydd Cristion yn gwneud hyn oll os bydd yn feddylgar er clod i Dduw, gan sylweddoli'n llawn beth y mae'n ei wneud o fewn cynllun Duw, a'i wneud o'r galon. Oherwydd penarglwyddiaeth Duw, Efô biau'r cwbl. Y mae sylweddoliad o hyn, yn sicrhau bod gras arbennig yn rheoli ac yn gweddnewid gras cyffredin. Bydd y Cristion hefyd yn cario'r Sul adref gydag ef ar gyfer pob dydd. Bydd yn dal i fyfyrio am Dduw ac i fyw bywyd defosiynol drwy ddarllen Gair Duw a chyfathrebu ag Ef drwy gydol yr wythnos. Ond ochr yn ochr â hynny, am lawer o amser yn yr oriau gwaith, y mae Duw yn rhoi iddo ef awydd ac agwedd sy'n gweddnewid ei ddealltwriaeth o ffrwythloni ac o gyfiawnder. Mae'r Cristion yn sylweddoli ffynhonnell a diben hyn i gyd. Mae ganddo amcan newydd a pherthynas.

Pam dwi'n sôn am hyn felly?

Un o wendidau Cristnogaeth yn y gorffennol fu creu hollt rhwng y byd a'r Cristion. Ac wrth gwrs, fe ddylai fod math o hollt rhwng y bydol a'r Cristnogol. Am lawer o resymau, – yn gyntaf, oherwydd y bydolrwydd hwnnw sy'n barod i lamu arnom; ac yn ail, oherwydd gormes un sffêr dros sffêr arall, oherwydd grym anaddas. Mae hynny weithiau wedi ysgogi rhai Cristnogion i fod yn *bietistig,* i beidio â gwrando ar fiwsig na darllen nofelau os nad ydynt yn dysgu gwers, i beidio ag ymhoffi mewn chwaraeon, i beidio â gweithio'n wleidyddol, i golli llawnder iach a ffrwythlon doniau bywyd, i beidio â chwerthin, i fod yn gul tost. Y gwir yw, sut bynnag, oherwydd

Penarglwyddiaeth Duw a'r Gorchymyn Diwylliannol a Gras Cyffredin, a'r gwerthfawrogiad o gyfraniad anghredinwyr dawnus i fywyd dynoliaeth, ac oherwydd y ffordd helaeth a phrydferth a gogoneddus y mae Duw yn gweithio, y mae modd i'r Cristion llawen ogoneddu Duw drwy'r cwbl o fywyd. Mae hyn yn rhoi rheswm a diben ac arddull i bob dim a wnawn. A does dim tebyg i ymwybod  â phwrpas er mwyn dyrchafu a gweddnewid gwerth popeth. Canol ein sancteiddhad, felly, yw gogoneddu yr Iesu hwn, eich Iesu chi a'm Iesu i, ym mhob peth.

Nid diwedd yw tröedigaeth, ond dechrau anrhydeddu Duw.